

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

8fed o Fai, 2013

Presennol: Y Cadeirydd, Linda Morris, Olwen Jones (Is-gadeirydd), John Morris, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Evans (Cynghorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Emyr Jones, Eleri Jones

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb a diolchodd i W D Williams am ei arweiniad cadarn dros y ddwy flynedd diwethaf.
2. Nid oedd datganiadau o ddiddordeb / buddiant mewn materion ar yr agenda
3. Nid oedd cyflwyniadau gan y cyhoedd ar fater ar yr Agenda
4. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 19 Chwefror 2013
5. Materion yn codi o'r Cofnodion:
 - i. Cadarnhawyd i G Edwards gael tendar y fynwent ac y bydd yn tynnu ein sylw at faterion diogelwch yno.
 - ii. Cadarnhawyd i siec am £50 gael ei chyflwyno i Eisteddfod Llangywer
6. Trafodwyd Gohebiaeth :
 - i. **Derbyniwyd llythyr o ddiolch** oddi wrth Theatr Bara Caws, Ambiwylans Awyr Cymru, Papur Llafar y Deillion, Yr Eisteddfod genedlaethol (Dinbych),
 - ii. **Gwynedd:** Derbyniwyd gwybodaeth am ffioedd y Fynwent; Gorchmynion Rheoli Cŵn; Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn
 - iii. **Yr Heddlu:** Derbyn gwybodaeth am ymgyrchoedd ar wisgo gwregys, peidio gyrru dan ddylanwad cyffuriau ac alcohol; beiciau modur. Mynegodd y Cynghorydd Sir ei fod yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl, a'i fod yn barod iawn i dynnu ei sylw at faterion a godir yn lleol. Cafwyd trafodaeth ar y difrod a wneir yn rheolaidd gan bobl o ffwrdd yn gyrru cerbydau 4x4 dros y tir.
 - iv. **Parc Cenedlaethol Eryri:** derbyniwyd gwybodaeth am geisiadau Glan y Gro, Ystrad y Groes a Phant March. Cadarnhawyd cais Tŷ Tan y Graig a gosod cebl drydan yn Rhosygwaliau
 - v. Arddangoswyd poster yn y Neuadd gan Dŵr Cymru am orsafoedd pwmpio carthffosiaeth
 - vi. Derbyniwyd "Y Llais"
7. Materion ariannol:
 - i. Cytunwyd i ofyn i Fantell Gwynedd i dalu PAYE dros y Cyngor
 - ii. Cadarnhawyd taliadau allan o gyllideb 2013-14:

| | |
|---|------|
| Neuadd Llangywer | £500 |
| Eisteddfod Cylch Penllyn | £50 |
| Ffermwyr Ieuan Meirionnydd | £50 |
| Cymdeithas Glyn a Rhos | £100 |
| iii. Cytunwyd i newid y rhodd o £150 i Tŷ'r Eos | |

8. Partneriaeth Penllyn - derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr ar y sefyllfa ddiweddaraf. Mae apwyntiadau wedi eu gwneud i ofalu am asedau Parc Cenedlaethol Eryri ; mae'r gwaith casglu arian ar gyfer yr Henblas yn tynnu at ei derfyn; bwriedir gwneud cais i Gyngor Gwynedd am fwy o gyfrifoldebau; gobeithir y bydd y Bartneriaeth cyn hir yn gallu bod o gymorth wrth sefydlu'r ysgol gydol oes.

Cytunwyd mewn egwyddor i wneud cyfraniad ar yr un fformiwla ag a wneir i Partneriaeth Penllyn at weithgaredd yr Henblas.

Amser gorffen: 9.10pm